

Hoffem roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion am ein cynlluniau i adeiladu 48 o gartrefi fforddiadwy ar safle cyn-swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar Ffordd Dinerth.

Rydym ar hyn o bryd yn dewis contractwr i osod y ffens ddiogelwch o amgylch y safle ac i gael gwared ar asbestos o'r adeilad presennol mewn modd diogel. Rydym yn disgwyl i'r gwaith hwn ddechrau erbyn diwedd Medi 2026 a chael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2026.

Unwaith y bydd yr asbestos wedi'i symud, bydd yr adeilad yn cael ei ddymchwel. Rydym yn disgwyl i'r gwaith dymchwel ddigwydd yn gynnar yn 2027.

Rydym hefyd yn dewis y contractwr a fydd yn adeiladu'r cartrefi newydd. Rydym yn disgwyl i'r gwaith adeiladu ddechrau ym mis Mawrth 2027, gyda'r datblygiad yn cael ei gwblhau yn 2029. Byddwn yn gallu darparu amserlen fwy fanwl unwaith y bydd y contractwr wedi'i benodi.

Cymeradwyodd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor y cynlluniau ym mis Mawrth 2026. Cyn y gall y gwaith adeiladu ddechrau, mae rhai gofynion cynllunio a chyfreithiol yn dal i fod angen eu cwblhau. Rydym yn gweithio gyda'r Cyngor i gwblhau'r materion hyn.

Medi 2026	Ffens safle ac asbestos
Rhagfyr 2026	Asbestos wedi'i dynnu
Dechrau 2027	Adeilad wedi'i ddymchwel
Mawrth 2027	Adeiladu'n dechrau
2029	Wedi'i gwblhau

Mae'n bosibl y bydd y dyddiadau hyn yn newid wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion.



Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y prosiect hwn, cysylltwch â:
E. dinerthroad@cartreficonwy.org | www.cartreficonwy.org